

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau



Y cefndir

Mae bioamrywiaeth yn sylfaen i'n hecosystemau. Po fwyaf o fioamrywiaeth sydd gennym, cryfa'n byd fydd ein hecosystemau, gan helpu i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â'r pwysau a wynebwn, er enghraifft drwy effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a chynyddu cydnerthedd ein hecosystemau, bydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth newydd, a fydd hefyd yn amlygu bioamrywiaeth fel rhan hanfodol o gydnerthedd ecosystemau.

Yng Nghymru, mae'r ddyletswydd newydd hon yn cymryd lle'r ddyletswydd am fioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC) oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i warchod bioamrywiaeth. Er bod dyletswydd NERC wedi arwain at rai llwyddiannau, nid ydynt wedi bod mor eang ag oedd ei angen. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd mewn adroddiadau fel Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol 2011 ac adroddiad Sefyllfa Natur 2013 yn dangos bod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, ac ni wnaethom fodloni ein Targedau Bioamrywiaeth Rhyngwladol ar gyfer 2010, ninnau a phob gwlad arall yn y byd. Mae'n rhaid i ni wneud mwy er mwyn gwyrddroi'r duedd hon a chydymffurfio â'n hymrwymadau rhyngwladol ar fioamrywiaeth ar gyfer 2020.

Y ddyletswydd uwch

Mae Deddf yr Amgylchedd yn gwella'r ddyletswydd NERC bresennol trwy ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu swyddogaethau yng Nghymru, geisio cynnal

a chyfoethogi bioamrywiaeth lle bo hynny'n rhan briodol o'u swyddogaethau. Wrth wneud hynny, dylent hefyd geisio hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Fel o dan yr NERC, bydd y ddyletswydd newydd yn berthnasol i amrywiaeth o awdurdodau cyhoeddus megis Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus ac ymgymeryr statudol. Bydd hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan annatod o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hefyd yn cysylltu bioamrywiaeth ag iechyd hirdymor ein hecosystemau, a bydd y ddyletswydd bioamrywiaeth yn cyd-fynd â'r fframwaith yn y Ddeddf ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd y Bil yn dysgu gwersi o'r system adrodd wirfoddol sydd wedi datblygu drwy Ddeddf NERC. Mae'r ddyletswydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru adrodd ar y camau y byddant yn eu cymryd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

I'n helpu i gynnal y ddyletswydd newydd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodol ystyried y dystiolaeth berthnasol y gofynnir amdani o dan y Ddeddf. Hefyd, bydd gofyn i'r awdurdodau cyhoeddus hyn baratoi a chyhoeddi cynllun ar sut y bwriadant gadw at y ddyletswydd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus hyn adolygu eu rhag-gynlluniau yng ngoleuni'r canfyddiadau yn eu hadroddiad.

Galwyd am y ddyletswydd newydd 'uwch' hon gan randdeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2013 a chan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n debyg i'r hyn sy'n cael ei wneud yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Enghreifftiau

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gallai awdurdodau cyhoeddus ei wneud i gyflawni'r ddyletswydd i wella bioamrywiaeth. Mae'n rhestru'r ystod o swyddogaethau y gallai'r ddyletswydd ofyn amdanynt, yn amrywio o benderfyniadau caffael i weithredu ar lawr gwlad:

- Defnyddio llai o ddeunydd ac aildefnyddio ac ailgylchu deunydd, ond pan brynir cynnyrch fel papur, gofalu bod cyflenwadau'n dod o ffynonellau cynaliadwy h.y. fforestydd cynaliadwy;
- Codi ymwybyddiaeth pawb yn y sefydliad ynghylch sut y gall pob rôl effeithio ar fioamrywiaeth ac ystyried mesurau ym mhob polisi, cynllun a phrosiect i wella bioamrywiaeth ac ecosystemau
- Chwilio am gyfleoedd boed fawr neu fach i helpu i gynyddu bioamrywiaeth e.e. plannu rhywogaethau brodorol, plannu lleiniau o flodau gwyllt i ddenu pryfed peillio, gadael i borfa dyfu heb ei thorri; a cysylltu cynefinoedd gwerthfawr â'i gilydd;
- Meddwl sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu i gyflawni amcanion eraill y sefydliad e.e. helpu hamddena actif, addysg, atal llifogydd a thyfu bwyd lleol. Er enghraifft, mae toeon gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd natur, yn arwain at losgi llai o ynni a gwella systemau draenio.

Dyma rai enghreifftiau yn unig. Caiff arweiniad manylach ei baratoi ar gyfer awdurdodau lleol.

Yr amserlen

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016, a daw'r ddyletswydd newydd i wella bioamrywiaeth i rym ddeufis yn ddiweddarach.

Er nad yw'r Ddeddf yn dweud pryd mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus baratoi a chyhoeddi ei gynllun cyntaf sy'n esbonio'r hyn y mae am ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd. Y bwriad yw i hyn ddigwydd o fewn blwyddyn gynta'r Ddeddf.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar gydymffurfio â'r Ddeddf erbyn 2019 ac yna bob tair blynedd wedi hynny.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil ei hun i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:
www.llyw.cymru/deddfyamgylchedd

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:
NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk